# Dibynnu arno

Byw ar Sicrwydd Gair Duw

## WEDI'R ANERCHIAD

**Bwriad y deunydd hwn yw cynnig syniadau pellach ar gyfer ymdrin neu drafod Eseia 55 ymhellach mewn grwpiau bach, neu fel deunydd ar gyfer paratoi anerchiadau pellach. Cynhwysir rhestr o adnoddau defnyddiol i helpu pobl i allu amgyffred y Beibl yn well a'u helpu i'w ddehongli a'i brofi mewn ffyrdd gwahanol.**

### CWESTIYNAU AR GYFER SESIWN GRŴP TŶ YN DILYN Y BREGETH

- Ydy Eseia 55.10-11 yn awgrymu fod Gair Duw yn ryw fath o rym na ellir mo'i rwystro? A yw adnod 11 yn awgrymu fod llwyddiant pwrpasau Duw yn anochel? Beth sydd angen i ni wneud er mwyn manteisio arnynt?
- Sut mae Gair Duw yn dylanwadu arnom ni?
- Efallai fod yma gyfle i ofyn i unigolion i rannu tystiolaeth ynglŷn â'r ffyrdd y newidiwyd eu bywydau gan y Beibl.
- Ydy aelodau'ch grŵp wedi cael profiad o Dduw yn gofalu trostynt yn ystod argyfwng ariannol 2008-09 neu argyfyngau eraill?
- Sut allwn ni ddarganfod fod ffyrdd Duw yn wahanol i'n ffyrdd ni? Sut allwn ni ddirnad y gwahaniaeth rhwng dulliau arloesol Duw a dulliau ffôl dynol?

**Mae'r awgrymiadau hyn yn mynd i'r afael â themâu eraill a welir yn Eseia 55, gellir eu archwilio mewn cyfarfodydd wythnos pellach neu bregethau eraill.**

### 1. Ffydd yng nghanol trafferthion ariannol

- Mae Eseia 55 yn agor gyda chyfeiriadau at arian a chyllid. Hyd yn oed os yw'r wasgfa gredyd wedi peidio erbyn i chi ddefnyddio'r deunydd hwn, bydd sawl aelod o'ch cynulleidfa wedi profi'r misoedd hyn fel cyfnod y bu'n anodd iddynt roi eu ffydd yn Nuw.

- Un o'r rhannau cyfarwydd o'r Beibl sy'n tynnu sylw at hyn yw Mathew 6.25-33. Gallwch edrych ar agweddau gwahanol tuag at feddiannau. Er enghraifft - sut ydym ni'n penderfynu pryd i newid ein ffôn lon? Oes angen y model diweddaraf arnoch bob amser? O'i gymharu â gweddill y byd, mae pob un ohonom yn y gorllewin yn gyfoethog iawn.

- Ewch i wefan www.globalrichlist.com a mewnbynnwch eich cyflog chi. Bydd yn dweud wrthych ym mha safle yr ydych o ran enillion blynyddol o'i gymharu â gweddill poblogaeth y byd. Gwnewch yr un fath ar gyfer cyflogau tebygol i aelodau eraill o'ch cynulleidfa.

**BIBLE SOCIETY,** STONEHILL GREEN, WESTLEA, SWINDON SN5 7DG. T: 01793 418100
F: 01793 418118 DONATION HOTLINE: 08459 272120 WWW.BIBLESUNDAY.ORG
CHARITY REGISTRATION NO. 232759 PATRON: HER MAJESTY THE QUEEN

cymdeithas y beibl
rhoi llais i neges y beibl

- Os  byddwn ond yn meddwl am ein harian yn nhermau safonau byw gweddill ynysoedd Prydain byddwn yn syrthio i'r fagl o gystadlu gyda'r bobl o'n hamgylch am fwy a mwy. Ond os  byddwn yn edrych ar dlodion gweddill y byd, yna byddwn yn fwy bodlon i ddofi ein hawch am feddiannau.

- Gallwch gynnwys gwybodaeth o'r adran *Cefndir i'r Darlleniad Beiblaidd* a chymharu'n sefyllfa bresennol gyda thrafferth yr Israeliaid yn ystod y gaethglud i roi eu ffydd yn Nuw.

- Mae ymddiried ein cyllid a'n harian i Dduw yn un o agweddau anoddaf y bywyd Cristnogol. Mae angen i flaenoriaethau Duw ddod yn flaenoriaethau i ni hefyd, yn enwedig yn y rhannau o'n bywyd yr ydym yn disgwyl cael rheolaeth lwyr drostynt - swyddi, ym mha ardal yr ydym yn byw, yr ysgolion mae ein plant yn mynychu, a'r symiau o arian yr ydym yn ei roi i eraill. Ceisia Duw barodrwydd gweddigar i ddibynnu arno yn y pethau hyn oll.

- Beth bynnag yw'n problemau, mae Duw yn gofyn i ni roi ein ffydd ynddo Ef. Bydd y modd y bydd Duw yn gweithio ym mhob sefyllfa yn unigryw i'r sefyllfa honno, ond os ydym yn ysbeidiol yn ein ffydd, ni ddylem synnu'n ormodol os nad ydym yn gweld Duw yn gweithio.

**2. Nid fy ffyrdd i yw eich ffyrdd chi**

- Beth am i rywun ddarllen/adrodd /ganu Caniadau Ffydd rhif 66. Mae'r emyn yn myfyrio ar ddirgelwch ffyrdd Duw. Nid ein meddyliau na chyfyngiadau ein dealltwriaeth mo'i ffyrdd ef. Yna darllen eto'r adnodau canlynol.

- Bydd Eseia 55.8-9 eisoes yn adnodau cyfarwydd i lawer o bobl.

- Mae'r ddwy adnod hon yn rhan o'r uchafbwynt i benodau 40-55. Cyhoedda'r adnodau hyn yn hyderus a chadarn er nad yw cynllun Duw i godi teyrn paganaidd fel Cyrus er mwyn rhyddhau ei bobl, yn ddull o weithredu y byddai'r un ohonom wedi ystyried, 'eneiniedig' Duw yw.

- Efallai fod yma gyfle i wahodd pobl i fyfyrio ar bethau anarferol a wnaeth Duw yn y Beibl a'r pethau anarferol mae wedi'i wneud yn eu bywydau hwy. Efallai ei fod yn bryd ystyried yr angen i fod yn feddwl-agored ynglŷn â'r modd y mae Duw yn gwireddu ei addewidion. Mae'r ysgrythur yn awgrymu mai anaml yw'r adegau bydd Duw yn gweithredu yn y modd y byddem ni'n disgwyl na'r modd y byddem ni'n ei weithredu!

- Un esiampl o hanes yw marwolaeth Jim Elliot, Cenhadwr a laddwyd ym 1956 gan y llwyth Ecwadoraidd yr oedd yn rhannu'r efengyl yn eu plith. Mae ei ddyddlyfr yn cynnwys y dyfyniad adnabyddus hwn; 'Nid ffŵl mo'r dyn sy'n rhoi'r hyn na all gadw i ennill yr hyn na all golli'. Ar ôl ei farwolaeth parhaodd ei wraig, Elisabeth, i weithio i wneud disgyblion i Iesu Grist ymhlith yr un llwyth.

- Nid yw Duw yn gweithio trwy gymysgu'r da a'r drwg yn ein bywyd i gynhyrchu rhyw lwyd bawlyd, ond trwy ganiatau i'r lliwiau a'r arlliwiau gydeistedd a chydlynu yn batrwm cyfoethog (Rhufeiniaid 8.28). Os oes gennych ddarn o frodwaith neu bwyth croes, gallwch ddangos y smonach ar un ochr, a'r darlun taclus ar yr ochr draw.

- Nid yw hyn yn golygu fod pob cynllun eithafol a glywn wedi ei awdurdodi gan Dduw, dim ond am ei fod yn brawf o'n ffydd a'n rheswm, ni allwn ddefnyddio'r adnodau hyn i gyfiawnhau pob menter eithafol.

- Mae'r proffwyd yn ein hannog i wneud ein 'ffyrdd ni' yn debycach i 'ffordd Duw'.

**ADNODDAU DEFNYDDIOL A LLYFRAU**

Llyfrau sy'n rhoi trosolwg o neges gyffredinol y Beibl i gyd:

- T Desmond Alexander, *From Eden to the New Jerusalem: Exploring God's plan for life on earth*, Leicester: IVP, 2008
- Craig G Bartholomew and Michael W Goheen, *The Drama of Scripture: Finding Our Place in the Biblical Story*, London: SPCK, 2005

Llyfrau ar gyfer rhai sydd am gychwyn astudio'r Beibl:

Ewch i wefan Cyngor Ysgolion Sul am fwy o wybodaeth www.cyngorysgolionsul.org.uk

neu at Swyddog Hyfforddi eich enwad
neu www.beibl.net

Adnoddau eraill:

| | |
|---|---|
| *Lectio Divina*, Bible Society | www.biblesociety.org.uk/lectiodivina |
| *lyfe*, Bible Society | www.lyfe.org.uk |
| Reel Issues, Bible Society | www.reelissues.org.uk |
| Walk Thru the Bible | www.walkthru.org |
| Wordlive, Scripture Union | www.scriptureunion.org.uk |

**Crëwyd y deunyddiau hyn gan John Wilks. Hyfforddwyd ef yn wreiddiol mewn cerddoriaeth, ac enillodd wobrwyon rhyngwladol am ei gyfansoddiadau cerddorfaol. Yn ddiweddarach yn ei yrfa astudiodd John Ddiwinyddiaeth yn y London School of Theology ac yn St John's College, Nottingham. Bellach mae'n arbenigwr yn yr Hen Destament, ac yn gweithio fel cyfarwyddwr Dysgu Agored yn y London School of Theology.**